**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-734
Ein cyf/Our ref CS/00317/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd - y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

6 Mawrth 2017

Annwyl Mike

**Deiseb: P-05-734 Gwahardd Codi Ffioedd Asiantau Gosod ar Denantiaid**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror a oedd yn cynnwys y sylwadau ychwanegol yr ydych wedi'u derbyn gan Shelter Cymru, ac yn gofyn am wybodaeth bellach ynglŷn â phryd yr wyf yn bwriadu gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen deddfwriaeth ar y mater hwn.

Rwy'n gofidio'n fawr fod y ffioedd sy'n cael eu codi gan asiantau gosod yn faich mawr ar denantiaid. Gobeithiaf fedru cyhoeddi cyn hir sut y byddwn ni, fel llywodraeth, yn bwriadu ymateb i'r mater hwn.

Wrth gwrs, yn y cyfamser, mae'n werth cofio bod gan Rentu Doeth Cymru reolaethau cryfach ar landlordiaid ac asiantau gosod na'r rheini sydd ar waith ym mhob man arall yn y Deyrnas Unedig. Pe byddai rhai o'r ffioedd y cyfeirir atynt ym mhapur Shelter Cymru yn cael eu codi gan asiantau gosod nad oedd wedi'u cyhoeddi, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, yna ffioedd anghyfreithiol fyddent yn y bôn. Os bydd asiant gosod yn cael ei erlyn yn llwyddiannus am godi ffioedd nad ydynt wedi'u cyhoeddi, gallai hynny effeithio'n ddifrifol ar ei drwydded gan Rentu Doeth Cymru, a gallai hefyd effeithio o bosib ar ei allu i barhau i weithredu fel asiant gosod yng Nghymru.

Yn gywir

Carl

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.